



Cynghrais Polisi
Bwyd Cymru

Food Policy
Alliance Cymru

Rhoi Bwyd wrth Wraidd Llywodraeth Cymru

Mae Cyngghair Polisi Bwyd Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i roi bwyd wrth wraidd ei Rhaglen Lywodraethu gan flaenoriaethu mynediad cyfartal at ddeiet lleol, fforddiadwy, iach, blasus, sy'n gyfeillgar i natur ac i'r hinsawdd.

Er mwyn helpu i ddiogelu a chefnogi pobl Cymru a chyflawni ein cyfrifoldebau byd-eang, rhaid i'r Senedd roi bwyd wrth wraidd y rhaglen Lywodraethu nesaf drwy:

- 1 Datblygu Cynllun Gwydnwch Bwyd cynhwysfawr sy'n cyflawni Nodau Llesiant Cymru**
- 2 Sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn Hyddysg am Fwyd**
- 3 Meithrin Cyfoeth Bwyd Cymunedol**
- 4 Creu Cynllun Twf uchelgeisiol ar gyfer Cynnyrch Garddwriaethol Bwydadwy**

Ynglŷn â Chyngghrair Polisi Bwyd Cymru

Cyfuniad o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n datblygu a hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru yw Cyngghrair Polisi Bwyd Cymru.

Drwy gydweithio, ymgysylltu ac ymchwil, nod y Gyngghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a bwyta ac yn rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a llesiant pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, yr argyfwng iechyd y cyhoedd a'r cynnydd mewn diffyg diogeledd bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisïau a chyfleoedd ymchwil y DU a'r system fyd-eang ehangach.

Wrth ddatblygu'r argymhellion hyn mae aelodau [Cyngghrair Polisi Bwyd Cymru](#) wedi defnyddio tystiolaeth yn deillio o: brofiad yr Aelodau eu hunain o weithio o fewn system fwyd Cymru; ymgynghoriad drwy ddirprwyaeth 2024 yng [Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru](#); a chan ddinasyddion Cymru drwy'r wybodaeth am bolisi gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad sy'n amlygu [cefnogaeth eang can y cyhoedd](#) i bolisïau sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd, iechyd a gwydnwch yn system fwyd Cymru.

Ledled Cymru, mae rhanddeiliaid wedi cydnabod bod angen cymryd camau i unioni'r fantol o ran ein system fwyd er budd cymdeithas ac er mwyn diogelu'r amgylchedd. Ceir sawl enghraifft o fentrau beiddgar ac uchelgeisiol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru (gweler Atodiad 1) ond mae angen i'r Llywodraeth wneud mwy i ddangos arweinyddiaeth a datgloi potensial.

Dylai cynhyrchu a bwyta bwyd olygu diogelu'r amgylchedd yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae'n golygu gwarchod swyddi da a bywoliaeth pobl yma yng Nghymru a chyflawni ein cyfrifoldeb byd-eang i gymunedau dramor. Mae hefyd yn golygu dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant wrth ddarparu diogeledd maeth i bawb yng Nghymru. Mae angen cryfhau gallu Cymru i wrthsefyll [siociau bwyd byd-eang](#), fel y rhai a brofwyd yn ystod COVID-19, trychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a phrisiau bwyd byd-eang sy'n codi ac i sicrhau nad ydym yn cyfrannu at faterion fel datgoedwigo neu fewnforio cynnyrch ffres o wledydd sy'n wynebu heriau hinsawdd, y gallem fod yn eu cynhyrchu gartref.



1

Datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwydnwch Bwyd

Ni all Cymru gyflawni ei hamcanion llesiant heb fod gan bawb fynediad at ddeiet cynaliadwy ac iach. Cymru yw'r unig wlad yn y DU heb gynllun cynhwysfawr ar gyfer bwyd. Mae gan yr Alban [Ddeddf Cenedl Bwyd Da \(2022\)](#) a chynllun [Cenedl Bwyd Da arfaethedig](#), mae gan Ogledd Iwerddon [Fframwaith Bwyd Cenedlaethol \(2024\)](#) ac mae Lloegr newydd lansio [Strategaeth Bwyd y DU ar gyfer Lloegr \(2025\)](#). Mae bwyd ar goll i raddau helaeth o'r amcanion llesiant y mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus eu cyflawni o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae bwyta'n iach wedi dod yn fwyfwy heriol, yn enwedig i aelwydydd ar incwm isel, ac mae deiet gwael bellach yn un o'r prif ffactorau risg ar gyfer clefydau y gellir eu hatal. Ar ben hynny, mae'r ffordd y mae ein bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yn cyflymu newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae'r effeithiau amgylcheddol hyn yn gwanhau gwydnwch y gadwyn gyflenwi ac yn cynyddu prisiau bwyd. Mae ymdrechion presennol y llywodraeth i fynd i'r afael â'r heriau lluosog sy'n wynebu'r system fwyd yn parhau i fod wedi'u gwasgaru ar draws sawl maes polisi. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion cydgysylltiedig hyn, credwn ei bod yn hanfodol cael fframwaith llywodraethu cadarn ar gyfer polisi bwyd.

Rydym yn credu y dylai cynllun:

- Alluogi camau pendant i gael eu cymryd ar draws y system fwyd gyfan a ffurfio rhan o fframwaith ar y defnydd o'r tir a'r môr ar gyfer y dyfodol a ddylai integreiddio dulliau cynhyrchu bwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur â thargedau adfer ynni a natur
- Gosod targedau clir, mesuradwy sy'n adlewyrchu'r canlyniadau hirdymor yr ydym am eu gweld ar gyfer iechyd y cyhoedd, cynaliadwyedd amgylcheddol, sefydlogrwydd economaidd, a diogelwch bwyd cenedlaethol
- Cynnwys dulliau i olrhain cynnydd, meithrin cydlyniant ar draws adrannau'r llywodraeth, a sicrhau atebolrwydd
- Pennu'r cyfeiriad ar gyfer diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) i gynnwys y system fwyd yn niffiniadau nodau Llesiant Cymru – gyda mynediad at ddeiet iach sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur i bawb

2

Sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gadael yr ysgol yn Hyddysg am Fwyd

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael deiet iach sy'n hanfodol ar gyfer ei dwf a'i ddatblygiad, sy'n meithrin llawenydd, sy'n amddiffyn eu planed ac yn parchu'r rhai sy'n gweithio o fewn y system fwyd. Drwy ddull ysgol gyfan, dylai pob plentyn gael mynediad at yr adnoddau, y wybodaeth a'r profiadau i ddysgu am fwyd, i ddysgu drwy fwyd ac i rannu bwyd da.

- **Dylai pob plentyn gael pryd ysgol am ddim sy'n faethlon a blasus, sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur - wedi'i wneud o gynnyrch Cymreig lle bo modd - ac sy'n cael ei fonitro gan system archwilio sy'n cynnwys plant, staff a rhieni**
- **Dylai athrawon a darparwyr blynyddoedd cynnar gael eu hyfforddi mewn sgiliau maeth ac arweinyddiaeth bwyd. Dylid cefnogi staff arlwyo gyda'u datblygiad proffesiynol**
- **Dylid defnyddio'r cwricwlwm i sicrhau bod plant yn dysgu am bob agwedd ar y system fwyd, yn cael profiad o hynny ac yn cael eu hysbrydoli ganddi, gan gynnwys sut i dyfu, prynu a pharatoi bwyd**
- **Dylai pob plentyn gael y cyfle i ymweld â fferm, tyfwr neu gynhyrchydd - sy'n cynhyrchu bwyd mewn ffordd sy'n gyfeillgar i natur a'r hinsawdd - yn ystod eu taith ddysgu a chael mynediad at fannau tyfu cymesur yn yr ysgol**
- **Dylid adeiladu ar ddarpariaethau gwyliau sefydledig yn yr ysgol ac yn y gymuned, fel Bwyd a Hwyl a Sgiliau Maeth am Oes, sy'n sicrhau bod gan blant fynediad at gyfleoedd i ddysgu am fwyd, i ddysgu drwy fwyd ac i rannu bwyd da drwy gydol y flwyddyn**



3

Meithrin Cyfoeth Bwyd Cymunedol

Dylai bwyd lleol gyfrannu at ddeiet iachach, cymunedau cryfach, a chynaliadwyedd amgylcheddol. Er mwyn ehangu systemau bwyd lleol i'w gwneud yn rhan brif ffrwd o economi fwyd Cymru mae angen i ni: Sicrhau cysondeb o ran polisi; ailgyfeirio trefniadau prynu bwyd y sector cyhoeddus tuag at opsiynau cynaliadwy o ffynonellau lleol; buddsoddi mewn seilwaith a grymuso cymunedau.

- **Dylid integreiddio bwyd a deiet yn nyletswyddau, nodau a dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn rhoi mandad clir i gyrff cyhoeddus gymryd camau a mesur cynnydd**
- **Dylai pob ardal leol gael cynllun gwydnwch bwyd lleol traws-sector a gefnogir gan bartneriaeth(au) bwyd lleol sydd â'r nod o sicrhau bod gan bawb yn eu cymuned fynediad at fwyd lleol, iach a chynaliadwy ac y gallant elwa ohono**
- **Dylai gyrff cyhoeddus ymrwymo i gaffael bwyd lleol a chynaliadwy yn eu cynlluniau llesiant a chaffael a dylai trefniadau adrodd gorfodol fod yn rhan o hynny**
- **Dylid cefnogi awdurdodau lleol i arfer eu pwerau i wella amgylcheddau bwyd lleol drwy ddefnyddio rheolau cynllunio i leihau nifer y siopau bwyd cyflym nad yw'n iach a chyfyngu ar hysbysebu bwyd nad yw'n iach yn lleol a buddsoddi mewn hysbysebu cadarnhaol**
- **Dylid creu Cronfa Economi Sylfaenol a Seilwaith Bwyd - i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn datblygu cadwyni cyflenwi lleol, sy'n gyfeillgar i natur a'r hinsawdd ac sy'n fwy amrywiol yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys mynediad a rennir at gyfarpar prosesu a storfeydd mewn hybiau bwyd sirol, datblygu llwybrau a rennir i farchnadoedd lleol a gweithio gyda chymunedau arfordirol i wneud y gorau o botensial bwyd môr**
- **Dylid creu cymhellion i helpu i ddatblygu'r farchnad fel bod pobl yn prynu (am bris teg) ac yn bwyta bwyd iach a gynhyrchir yn lleol sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur**



4

Datblygu Cynllun Twf Uchelgeisiol ar gyfer Cynnyrch Garddwriaethol Bwydadwy

Defnyddir llai na 0.1% o dir amaethyddol yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu ffrwythau a llysiau ac mae angen 2% o dir i dyfu digon o gynnyrch ar gyfer ein 5 y dydd. Mae angen cynllun arnom i dyfu mwy o fwyd i gefnogi cynhyrchu a bwyta bwydydd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur a bwydydd sydd wedi'u prosesu cyn lleied â phosibl fel ffrwythau, llysiau a chodlysiau, a sicrhau nad ydym yn rhy ddibynnol ar fewnforion.

- **Targedu cynnydd o 100% mewn tir amaethyddol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer garddwriaeth erbyn 2030 (i 0.2%)**
- **Gosod targed twf uchelgeisiol ar gyfer garddwriaeth organig fel rhan o Gynllun Gweithredu Organig i Gymru i gefnogi twf cynaliadwy'r sector organig**
- **Datblygu system gynllunio sy'n cadw tir ar gyfer tyfu bwyd (gan gynnwys tir cyhoeddus) gan alluogi'r seilwaith a'r anheddau mentrau gwledig sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu ffrwythau a llysiau yn llwyddiannus**
- **Gwneud y mwyaf o botensial yr haenau dewisol a chydweithredol o fewn y cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer garddwriaeth gynaliadwy**
- **Buddsoddi mewn hyfforddiant/prentisiaethau achrededig â thâl sy'n seiliedig ar waith ar gyfer ffermio cynaliadwy gan gynnwys garddwriaeth**
- **Buddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar ffermydd ac yn ganolog (tyfu, prosesu, pecynnu a storio) ac adeiladu'r seilwaith hwnnw**
- **Cefnogi datblygu cyllid arloesol i hybu'r sector**
- **Targedu 2 ddogyn o lysiau lleol, wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy ym mhob pryd ysgol yn dymhorol a monitro'r cynnydd**
- **Ymddiried ym mhŵer tyfu bwyd yn y gymuned. Dylai cyrff cyhoeddus mewn partneriaeth â'r trydydd sector gefnogi cymunedau i reoli mannau tyfu bwyd gan gydnabod y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol**



Atodiad 1: Astudiaethau Achos o Fentrau sy'n cymryd Camau

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud	Disgrifiad
Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwydnwch Bwyd	<u>Bwyd Ein Dyfodol: Sut Gall Awdurdodau Lleol Llunio Systemau Bwyd Gwell yng Nghymru – Synnwyr Bwyd Cymraeg</u> Mae'r ddogfen ganllaw hon gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Synnwyr Bwyd Cymru yn amlinellu cyfres o ddulliau polisi y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i wella eu system fwyd leol wrth wneud y mwyaf o gynnydd yn erbyn pob un o saith nod llesiant Cymru <u>Bwyd Caerdydd</u> Cymerodd 95 o drigolion Caerdydd ran mewn 7 Sgwrs Fwyd, a hwyluswyd gan Bwyd Caerdydd gan ddefnyddio Fframwaith y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Un o'r pum prif ateb a nodwyd oedd arweinyddiaeth gryfach gan y llywodraeth, ac roedd y cyfranogwyr yn rhagweld sefydlu corff fel Gweinyddiaeth Fwyd i gydlyn polisi. https://youtu.be/2iyzc5gGkQ
Pob plentyn yn gadael yr ysgol yn Hyddysg am Fwyd	<u>Mae Sgiliau Maeth am Oes</u> yn cefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i hyrwyddo a darparu opsiynau bwyd maethlon a chynaliadwy drwy gynlluniau hyfforddi a gwobrwyo. Mewn ysgolion, mae Sgiliau Maeth am Oes yn darparu hyfforddiant a chymorth i staff addysgu i gyflwyno'r elfennau Bwyd a Hwyl a maeth y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant. <u>Aw'r Fwyd mewn Ysgolion</u> Wedi'i ddatblygu drwy bartneriaeth ddeinamig rhwng Gwasanaeth Arlwyio Addysg Cyngor Caerdydd, Tîm Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Synnwyr Bwyd Cymru, rhoddwyd y cynllun peilot Aw'r Fwyd ar waith mewn chwe ysgol gynradd yng Nghaerdydd, gan gynnig aw'r ddyddiol i blant wedi'i neilltuo i fwyd – gan gynnwys prydau maethlon, addysg bwyd, a dysgu drwy brofiad. Mae'r fenter yn hyrwyddo datblygiad 'Dinasyddion Bwyd' drwy ymgorffori negeseuon iechyd maethol a manteisio ar adnoddau o bartneriaethau bwyd lleol gan gynnwys Nerth Llysiau a Maint Cymru. Gyda'r cynllun Prydau am Ddim i Holl Ddisgyblion Ysgolion Cynradd bellach wedi'i gyflwyno ledled Cymru, mae Prosiect yr Aw'r Fwyd yn chwarae rhan hanfodol o ran cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brydau bwyd. Drwy addysgu uniongyrchol, clybiau coginio ar ôl ysgol, a dull ysgol gyfan sy'n cael ei ysgogi gan lais y disgybl, mae'r prosiect yn cryfhau ymgysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref ac yn annog arferion bwyta iachach.

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud	Disgrifiad
	<u>Bwyd a Hwyl</u> Rhaglen sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn ystod gwyliau'r haf yw Bwyd a Hwyl. Caiff ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a'i gweinyddu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. <u>Cegin y Bobl</u> Mae Cegin y Bobl yn cynnal rhaglenni addysg bwyd trawsnewidiol wedi'u datblygu a'u cynnal gan rai o gogyddion, tyfwyr ac arbenigwyr bwyd gorau Cymru. Mae'n cynnig cyrsiau Darganfod Bwyd i blant, sy'n archwilio bwyd drwy goginio yn ogystal â rhaglen Arweinyddiaeth Bwyd, sy'n rhoi dealltwriaeth ddyfnach i athrawon, staff ysgolion ac arweinwyr cymunedol o addysg bwyd a bwyd cynaliadwy.
Meithrin Cyfoeth Bwyd Cymunedol	<u>Canllawiau Cynllunio Powys ar gyfer Garddwriaeth</u> Mae'r canllawiau cynllunio hyn wedi'u paratoi'n benodol i gefnogi a chynorthwyo mentrau garddwriaethol ar raddfa fach i baratoi cais cynllunio ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig (parhaol neu dros dro). <u>Cyngor Sir Fynwy – Cyngor Hyrwyddo Dim Datgoedwigo Cyntaf Cymru</u> (Maint Cymru) Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cymryd cam mawr tuag at frwydro yn erbyn newid hinsawdd a diogelu bioamrywiaeth drwy ddod yn Gyngor Hyrwyddo Dim Datgoedwigo cyntaf y byd. <u>Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol</u> Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol wedi bod yn cefnogi busnesau mewn rhannau o'n heconomi leol bob dydd, a elwir hefyd yn Economi Sylfaenol, i ddarparu mwy o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus, gan helpu i greu mwy o swyddi gwell yn nes at adref. Un o nodau'r gronfa oedd cynyddu faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei weini ar blatiau cyhoeddus, drwy gynorthwyo cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd lleol i ennill yr achrediadau sydd eu hangen arnynt i gael mynediad at gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus.. <u>Partneriaethau Bwyd Lleol</u> Mae partneriaethau bwyd lleol yn dod â phartneriaid o amrywiaeth o sectorau gwahanol ynghyd i helpu i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gydweithio i sicrhau bwyd da i bawb. Maent yn gweithio ar draws sectorau gan ddod â phobl allweddol ynghyd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol bwyd mwy cynaliadwy sydd wedi'i deilwra i'w hardal leol gan ymateb i'w hanghenion penodol. Yng Nghymru, mae 22 o bartneriaethau bwyd, un ym mhob ardal awdurdod lleol, yn hyrwyddo arloesedd ac arfer gorau mewn systemau bwyd iach a chynaliadwy.

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud	Disgrifiad
	<u>Strategaeth Bwyd Cymunedol</u> Strategaeth Llywodraeth Cymru i wella cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol. <u>Amgylchedd Bwyd – Hysbysebu</u> Mae hysbysebu'n dylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei brynu ac yn ei fwyta. Yn aml, mae hysbysebion yn yr awyr agored yn llawn delweddau o fwydydd a diodydd sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr a/neu halen. I blant yn benodol, gall hyn arwain at ymwybyddiaeth gref o frand a dylanwadu ar eu dewisiadau o ran bwyd. Mae Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd wedi cyfyngu ar hyrwyddo bwydydd sy'n cynnwys lefelau uchel o Fraster, Siwgr a Halen o bob gofod hysbysebu awyr agored sy'n eiddo iddynt, a bydd hyn yn dod i rym yn llawn ar ôl i'r holl gontractau presennol ddod i ben. <u>Cerdyn y Blaned</u> Cynllun peilot yng Nghaerdydd i gynyddu mynediad at fwyd sy'n gyfeillgar i'r blaned i aelwydydd ar incwm isel yw Cynllun y Blaned. Mae'r cyfranogwyr yn cael £11 yr wythnos i'w wario ar ffrwythau a llysiau organig ym Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd. Mae canfyddiadau cychwynnol gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Caerdydd wedi dangos cynnydd mewn ymddygiadau bwyta'n iach ac adroddiadau am lai o ynysu cymdeithasol ymhlith cyfranogwyr; gyda'r buddsoddiad ariannol o fudd uniongyrchol i dyfwrwr bach Cymru. <u>Fframwaith Bwyd Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru</u> (Yn 2023, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ymgorffori meini prawf gorfodol dim datgoedwigo mewn fframwaith caffael bwyd gwerth £228 miliwn sy'n cwmpasu 20 o gyrff cyhoeddus yng nghanolbarth a de Cymru a 21 o gyflenwyr. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys lleihau'r defnydd o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, prynu cig a chynnyrch llaeth organig o ansawdd uwch, ei gwneud yn ofynnol i olew palmwydd fod wedi'i ardystio gan RSPO lle na ellir ei osgoi, sicrhau bod bwyd môr wedi'i ardystio gan MSC/ASC, hyrwyddo coffi a choco Masnach Deg, a chynyddu'r amrywiaeth o fwydydd tymhorol a bwydydd sy'n deillio o blanhigion)
Cynllun Gweithredu Uchelgeisiol ar gyfer Garddwriaeth	<u>Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion</u> An initiative to increase the production and consumption of sustainably produced veg through school meals. <u>Hybiau Caffael Bwyd Cynaliadwy</u> Cynllun peilot a ddangosodd barodrwydd tyfwyr, busnesau cymunedol, rheolwyr caffael a chogyddion y sector cyhoeddus i gynyddu'r galw am ffrwythau a llysiau lleol a'r cyflenwad ohonynt.

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud

Disgrifiad

Procurement 4 Good

Gan weithio gyda hybiau bwyd, cynhyrchwyr llai a phrynwyr yn y sector cyhoeddus, nod y prosiect yw ehangu rhwydweithiau caffael bwyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar leoedd drwy arferion cydweithredol, arloesedd digidol ac argymhellion polisi..

Garddwriaeth Cyswllt Ffermio Rhaglen garddwriaeth sy'n rhoi'r cymorth, yr arweiniad a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar dyfwyr a ffermwyr i gyflawni eu nodau.

Prosiect Ffermydd y Dyfodol ym Mhowys

Mae'r prosiect wedi gweld fferm 36 erw ym Mhowys yn cael ei rhannu'n dair uned 8 erw a'i chynnig i dyfwyr lleol, gan roi tir a seilwaith iddynt dyfu bwyd.

Prosiect Datblygu Systemau Bwyd, Sir Gaerfyrddin

Mae Bremenda Isaf yn fferm iseldir 100 erw ym mhentref Llanarthne sydd wedi'i lleoli yng nghanol dyffryn Tywi sy'n rhan o ystâd wledig Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r tir cyhoeddus hwn bellach yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer treialu menter gyffrous i dyfu ffrwythau ffres, fforddiadwy o ansawdd uchel.



Atodiad 2: Cyfeiriadau Allweddol a Deunydd Darllen Pellach

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud	Disgrifiad
Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwydnwch Bwyd	Adroddiad gan yr Athro Tim Lang ar gyfer y Pwyllgor Parodrwydd Cenedlaethol (2024) Adroddiad 'Rethink Food' gan Nature Friendly Farming Network (2022) Adroddiad 'Nature Means Business' gan Nature Friendly Farming Network (2023) Map trywydd ar gyfer gwydnwch a chynllun bwyd ar gyfer y DU 2050 gan yr AFN Network+ (2025) Canfyddiadau sgysiau bwyd yng Nghymru gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad (2024) Sut Gallai Cymru Fwydo ei Hun Erbyn 2035?: Grŵp Herio Sero Net Cymru 2035 (2024) Deddf Genedlaethol Bwyd Da (2022) – Good Food Nation (Scotland) Act 2022 Cynllun Bwyd Da Cenedlaethol yr Alban – National Good Food Nation Plan – gov.scot Fframwaith Strategaeth Bwyd Gogledd Iwerddon – Northern Ireland Food Strategy Framework Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs Strategaeth fwyd llywodraeth DU ar gyfer Lloegr – A UK government food strategy for England – GOV.UK
Pob plentyn yn gadael yr ysgol yn Hyddysg am Fwyd	Adolygiad llenyddiaeth systematig o nodweddion rhaglenni maeth llwyddiannus yn seiliedig ar brofiad mewn ysgolion cynradd (2021) Goblygiadau datblygu llythrennedd bwyd ymysg plant a phobl ifanc i ddylunio strategaethau i hyrwyddo deiet iachach a mwy cynaliadwy (2024) Dogfen gan Generating Excellent Nutrition in UK Schols (GENIUS) ar weithio tuag at system bwyd a maeth sy'n hybu iechyd yn ysgolion y DU (2024)

Yr Hyn y Gofynnir i'r Llywodraeth ei Wneud	Disgrifiad
	<u>Strategaeth allweddol ar gyfer lleihau gwastraff bwyd a gwella ansawdd deiet (2024)</u> <u>Adolygiad cwmpasu systematig ar archwilio effeithiolrwydd ymyriadau llythrennedd bwyd wrth wella ymddygiad mewn perthynas â llythrennedd bwyd a bwyta'n iach ymhlith oedolion sy'n perthyn i wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol (2024)</u> <u>Mae Bwyta'r Llysiau i'w Llethu yn ymgrych arobryn gan Veg Power sy'n annog plant i fwyta mwy o lysiau</u>
Meithrin Cyfoeth Bwyd Cymunedol	<u>Siarter Dim Datgoedwigo Cymru</u> <u>Fframwaith Bwyd Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru</u> <u>Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol</u> <u>Cynllun gweithredu uchelgeisiol a chydweithredol i ehangu'r sector bwyd lleol (2025) gan Local Food Growth Plan</u>
Cynllun Gweithredu Uchelgeisiol ar gyfer Garddwriaeth	<u>Tunelli o Newid - Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion (2025)</u> <u>Cynllun Garddwriaeth Fasnachol, Tyfu Cymru (2020)</u> <u>Yr achos dros gynllun gweithredu Organig, Cymdeithas y Pridd (2024)</u> <u>Adroddiad ar ddyfodol garddwriaeth gan Senedd y DU (2023)</u> <u>Adolygiad polisi pontio'r bwlch gan Sustain (2024)</u> <u>Papur briffio The Green Alliance: Datblygu garddwriaeth yn y DU</u>





Cynghrair Polisi
Bwyd Cymru
Food Policy
Alliance Cymru